Bannau Brycheiniog

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Penodi Aelod newydd

# Dyddiad Cau: 3 Chwefror 2026 am 4pm

The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**

**Gwneud Cais**

**Atodiad A:** **Penodi pedwar Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Atodiad B:** **Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

**Atodiad C:** **Y broses ddethol**

**Atodiad D:** **Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001**

**Atodiad E:** **Canllaw Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg**

## Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn penodi aelod newydd i **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB).**

Rôl aelod a benodir gan Weinidogion Cymru i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw dod â safbwynt cenedlaethol i'w arweinyddiaeth effeithiol, helpu i ddatblygu ei gynlluniau strategol, a sicrhau bod ei fusnes yn cael ei drin yn effeithlon ac effeithiol. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion am rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau **APCBB** a'r broses ddethol.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod yn rhithwir ar MS Teams |
| **Ymrwymiad Amser:** | lleiafswm o 44 diwrnod y flwyddyn |
| **Cyfnod y penodiad:** | penodiad cychwynnol o 4 blynedd |
| **Tâl:** | £5,576 y flwyddyn |

Mae'r Awdurdod yn cynnal rhywfaint o'i fusnes yn electronig a disgwylir i aelodau fod yn ddigon hyfedr mewn TG.

Mae'r Atodiadau isod yn rhoi gwybodaeth am rôl yr aelod a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau APCBB a'r broses ddethol.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus ac yna ar 'Penodi Aelod newydd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog'. Pan fydd y swydd yn ymddangos cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd bydd angen i chi gwblhau ffurflen gofrestru ar gyfer system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy eich cyfrif cofrestredig.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad i'r ffurflen gais. I wneud cais bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

**Datganiad Personol**

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sy'n dewis sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad proffesiynol a byw yn cyd-fynd â'r meini prawf, ac yn amlinellu eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch fod yn glir at ba feini prawf y mae'r dystiolaeth a ddarperir yn berthnasol, er enghraifft drwy ddarparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

**Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen. Gall eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.**

**CV**
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno am eich swydd/swyddi cyfredol (os yw'n berthnasol) a/neu eich swydd/swyddi diweddaraf a'r dyddiadau perthnasol. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol yn y gorffennol neu'r presennol.

**Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl**
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf lleiaf ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i roi manylion unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod eu hangen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

**Datganiad am Amrywiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cael cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu ystod eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymdeithas ac eisiau penodi o'r gronfa ehangaf a mwyaf amrywiol o dalent.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb waeth beth fo'u hoedran, priodas (gan gynnwys priodas o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadaeth rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, nam neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred neu feichiogrwydd. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LGBTQ+, sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli mewn swyddi bwrdd mewn cyrff cyhoeddus.

**Amserlen Ddangosol**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 3 Chwefror 2026 (4pm) |
| Cwblhau'r rhestr fer: | yr wythnos yn cychwyn 23 Chwefror 2026 |
| Cyfweliadau: | 9 a 10 Mawrth 2026 |

**Manylion Cyswllt:**
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl APCBB a rôl Aelodau cysylltwch â:

Gemma Turner, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon,
Cambrian Way,
Aberhonddu,
Powys LD3 7HP
Ffôn: 07854 997533 / E-bost: gemma.turner@beacons-npa.gov.uk

Neu

Geraint Evans, Yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru
Ffôn: 0300 062 2097
E-bost: geraint.evans@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

**Digwyddiadau allgymorth**
Bydd APCBB yn cynnal digwyddiadau allgymorth i alluogi'r rhai sydd â diddordeb i gwrdd ag Aelodau presennol yr Awdurdod a dysgu mwy am y rôl. Cynhelir rhain arlein ar MS Teams ar:

Ddydd Llun 12 Ionawr (17:00 – 19:00)
Ddydd Llun 19 Ionawr (13:00 – 15:00)

Os oes diddordeb gennych mewn mynychu un o'r sesiynau hyn yna anfonwch e-bost at enquiries@beacons-npa.gov.uk i neilltuo eich lle. Rhennir gwahoddiadau Teams gyda mynychwyr erbyn y dydd Gwener cyn y naill sesiwn.

**Atodiad A**

# Penodi Aelod i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol (APC) yn gyfrifol, yn unigol ac ar y cyd, am roi arweiniad effeithiol i'r APC, am bennu ei bolisi ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion o fewn y fframwaith statudol, polisi ac ariannol a bennwyd ar ei gyfer. Mae dyletswydd ar Aelodau i weithredu bob amser o fewn y gyfraith, yn ddidwyll ac er budd gorau'r Parc Cenedlaethol, ac i fod yn ofalus wrth sicrhau nad yw eu sefyllfa gyhoeddus yn cael ei pheryglu o blaid buddiannau preifat ar unrhyw adeg, neu'n achosi amheuaeth bod hyn wedi'i wneud. Mae gennych statws cyfartal ar yr Awdurdod â phob aelod arall, p'un a yw wedi'i benodi/phenodi gan Weinidogion Cymru neu gan Awdurdod Lleol, er gwaethaf unrhyw brofiad neu sgiliau penodol y gallech chi neu aelodau eraill eu cynnig.

**Rôl Aelodau**

Mae'n ofynnol i Aelodau APCau ddeall a dangos ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol a bod yn barod i ymrwymo'r amser sydd ei angen i fynychu cyfarfodydd llawn yr Awdurdod a'r pwyllgorau yn rheolaidd, yn ogystal â digwyddiadau datblygu aelodau, gweithgorau, digwyddiadau, ymgysylltu â phobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys y rhai o leiafrifoedd ethnig a chynrychioli'r Awdurdod ar gyrff allanol.

**Mae'r tasgau allweddol yn cynnwys:**

- Helpu i arwain yr APC wrth ddiffinio a datblygu ei gyfeiriad strategol ac wrth bennu amcanion heriol;
- Sicrhau bod gweithgareddau'r APC yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosib;
- Sicrhau bod strategaethau yn cael eu datblygu i fodloni dibenion a dyletswyddau yr APC, yn unol â'r polisïau a blaenoriaethau a nodir gan Lywodraeth Cymru;
- Monitro perfformiad yr APC er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn;
- Sicrhau bod rheoli, rheoleiddio a monitro gweithgareddau'r APC, yn ogystal â rhai unrhyw gyrff eraill y gall eu noddi neu eu cefnogi, yn sicrhau gwerth am arian o fewn fframwaith o arfer gorau, rheoleidd-dra a phriodoldeb a chymryd rhan yn y broses cynllunio gorfforaethol;
- Helpu'r APC i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**Manyleb y Person**

**Pa sgiliau neu wybodaeth sydd eu hangen arnoch?**

I gael eich ystyried, rhaid i chi fedru dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer penodi. Yr ydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion nad oes ganddynt brofiad blaenorol o weithio ar fyrddau sector cyhoeddus. Dewisir unigolion ar sail teilyngdod, yn erbyn y meini prawf hanfodol ac nid fel cynrychiolwyr sefydliadau neu grwpiau penodol.

Er mwyn llwyddo yn y rôl hon mae'n bwysig eich bod yn gallu cymhwyso eich sgiliau a'ch profiad mewn ffyrdd sy'n helpu i gyflawni'r dibenion statudol y dynodwyd y Parciau Cenedlaethol ar eu cyfer (gweler yr ail baragraff yn Atodiad B).

Bydd yr Awdurdod yn elwa o allu manteisio ar ystod eang o sgiliau (gan gynnwys sgiliau trosglwyddadwy) a gwybodaeth yn ei aelodaeth. Bydd angen i chi fedru dod â phersbectif cenedlaethol i'w waith, gan gydnabod ei rôl a'i gyfraniad at ddyheadau Cymreig (yn enwedig er lles cenedlaethau'r dyfodol) tra'n adnabod cyfraniad y Parc i fywyd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol bob dydd.

Bydd eich cais yn cael ei gryfhau os gallwch ddangos dealltwriaeth o brofiad pobl o gefndiroedd amrywiol o gael mynediad i gefn gwlad a mannu gwyrdd, a ffyrdd y gellir gwneud y mannau hyn yn fwy cynhwysol.

<u>Meini Prawf Hanfodol</u>

- Y gallu i wneud cyfraniad cryf i Awdurdod y Parc drwy gymryd rhan yn effeithiol ac yn adeiladol ar ei bwyllgorau a'i weithgorau, gan weithio mewn modd colegol ar bob amser;
- Y gallu i weithredu'n effeithiol mewn rôl strategol neu genedlaethol, gan ddarparu cyfeiriad i dîm gweithredol yr Awdurdod;
- Y gallu i gyfathrebu'n glir ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd;
- Gwerthfawrogiad o bolisi ac arfer presennol Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â thirweddau a'r amgylchedd;
- Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i'r deg egwyddor yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 (gweler Atodiad D);
- Gwybodaeth neu brofiad o hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth mewn cyd-destun perthnasol. Gallai enghreifftiau gynnwys:
    - profiad byw o anfantais neu allgáu,
    - hyrwyddo cydraddoldeb yn rhagweithiol i bobl â nodweddion gwarchodedig[1],
    - a/neu unigolion sydd â phrofiad proffesiynol megis mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ariannol ac iechyd, neu chwalu rhwystrau i gynhwysiant.
- Mae sgiliau a phrofiad mewn **un neu fwy** o'r meysydd canlynol hefyd yn hanfodol:
    - Profiad mewn cyllid cynaliadwy / gwyrdd, gan gynnwys cynhyrchu neu arallgyfeirio incwm mewn cyd-destun amgylcheddol;
    - Profiad mewn datblygu sefydliadol a llywodraethu;
    - Dealltwriaeth o rôl Parciau Cenedlaethol mewn perthynas â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

<u>Sgiliau dymunol</u>

- Profiad o eirioli dros farn ac anghenion pobl ifanc (byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan ymgeiswyr o dan 30 oed, neu'r rhai sydd â phrofiad byw neu broffesiynol o weithio gyda phobl ifanc ac eirioli drostynt).
- Profiad yn y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, a dealltwriaeth o bwysigrwydd diwylliant a'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun Parciau Cenedlaethol a Bannau Brycheiniog yn benodol.

---

*1 Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.*

Gall profiad o weithio i elusen, bod yn ymddiriedolwr, rhedeg busnes neu weinyddiaeth gyhoeddus ar lefel uwch fod yn fanteisiol ond nid yw'n hanfodol o gwbl.

**Iaith Gymraeg**
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gan yr ymgeisydd llwyddiannus agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg a dealltwriaeth o bwysigrwydd yr iaith a'i rôl amlwg yn nhreftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc Cenedlaethol.

**Tâl Cydnabyddiaeth**
Bydd Aelod yn cael ei dalu £5,576 y flwyddyn (caiff lefel y gydnabyddiaeth ariannol ei hadolygu gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac mae'n seiliedig ar ragdybiaeth o o leiaf 44 niwrnod o waith y flwyddyn, gyda diwrnodau ychwanegol yn cael eu hystyried yn elfen gwasanaeth cyhoeddus). Ystyrir aelodau APCBB yn ddeiliaid swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd yn rhaid talu trethi ar y ffioedd o dan Atodlen E i'r Ddeddf Trethi a bydd yn rhaid talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu didynnu drwy system gyflogres APCBB a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd. Nid yw'r ffioedd yn destun TAW.

Gellir hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill y gellid eu hysgwyddo wrth wneud gwaith ar ran APCBB o'r Awdurdod o fewn y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau mewn perthynas â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra'n gwneud gwaith ar ran APCBB. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynghylch a fyddech yn gymwys i gael lwfansau gofal, cysylltwch ag APCBB:

Gemma Turner, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, APC Bannau Brycheiniog, Ffôn: 07854 997533 / E-bost: gemma.turner@beacons-npa.gov.uk.

**Ymrwymiad amser**
Bydd disgwyl i aelodau fod ar gael i weithio o leiaf 44 diwrnod y flwyddyn fel aelodau APCBB, gan gynnwys yr amser sydd ei angen i baratoi ar gyfer cyfarfodydd. Disgwylir i bob Aelod fynychu cyfarfodydd llawn yr Awdurdod, a gynhelir fel arfer ar ddydd Gwener, a chyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, a gynhelir ar ddydd Mawrth. Efallai y cewch eich ethol i wasanaethu ar bwyllgorau eraill gan gynnwys Archwilio a Risg a Chyllid a Pherfformiad, y ddau ohonynt yn cael eu cynnal ar ddydd Llun.

**Amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus**
Mae Adran 50 (a darpariaethau cysylltiedig) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn sicrhau y gall gweithwyr gymryd rhan mewn dyletswyddau cyhoeddus pwysig, megis gwasanaethu ar Awdurdod Parc Cenedlaethol, gydag amddiffyniad rhag triniaeth annheg. Fodd bynnag, mae'r amser i ffwrdd yn gyffredinol yn ddi-dâl ac yn amodol ar yr hyn sy'n rhesymol i'r gweithiwr a'r cyflogwr.

**Hyd y penodiad**
Bydd y penodiadau yn cychwyn ar 1 Ebrill 2026 ac yn para pedair blynedd. Yn dilyn hyn gall y Gweinidog ystyried ailbenodi heb gystadleuaeth am hyd at uchafswm o ddeng mlynedd (yn amodol ar werthusiad perfformiad boddhaol).

**Atebolrwydd**
Penodir aelodau gan Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac maent yn atebol i'r APC am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad. Rhaid iddynt gymryd rhan lawn yn y broses arfarnu perfformiad flynyddol ac ymrwymo i welliant parhaus drwy gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir gan yr Awdurdod.

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**
Mae personau sydd wedi gwasanaethu ar APC o'r blaen yn gymwys i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys Aelodau blaenorol neu bresennol sydd wedi gwasanaethu, neu a fydd wedi gwasanaethu, am gyfnod o ddeng mlynedd.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd.

***Tynnir sylw darpar ymgeiswyr at y gofynion cymhwystra ym mharagraff 7 Atodlen 7 i'r Ddeddf Amgylchedd 1995***. Mae Paragraff 7 yn darparu bod y rhai sydd yn ddeiliaid rolau penodol eraill yn cael eu gwahardd rhag dod neu aros yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod bod yn aelod o APCBB yn swydd anghymwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/1255/made

**Gwrthdaro Buddiannau**
Dylech nodi'n benodol y gofyniad i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai, neu y gellir ystyried eu bod, yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau APCBB, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi mewn awdurdod y tu allan i'r rôl yn APCBB.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau yn syth wedi i chi gael eich penodi a byddant yn cael eu cynnwys mewn cofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Ni all swyddogion presennol Llywodraeth Cymru hefyd wasanaethu fel Aelodau APCau. Argymhellir bod swyddogion presennol Llywodraeth y DU yn gwirio eu cymhwysedd gyda'u priod adrannau.

**Diwydrwydd Dyladwy**
Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i chwiliadau cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd ('Awdurdod' yn yr achos hwn) Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen hon yma.

**Atodiad B**

## Rôl a chyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Beth yw Parciau Cenedlaethol?**
Mae Parciau Cenedlaethol yn dirweddau o bwysigrwydd rhyngwladol. Er eu bod yn wledig eu natur yn bennaf, maent yn agos at gymunedau trefol ac mae ganddynt botensial sylweddol i gyfoethogi bywydau pobl Cymru ac ymwelwyr â Chymru, ac i gyfrannu'n gadarnhaol at economi Cymru. Un o dasgau allweddol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (APCau) yw helpu i sicrhau y bydd yr ardaloedd arbennig hyn, yn y dyfodol, yn lleoedd â thirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth gyfoethocach a mwy amrywiol na heddiw, wedi'u mwynhau a'u thrysori gan drawstoriad llawn o gymdeithas.

**Beth yw eu rôl?**
Mae gan yr APCau ddau ddiben statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig [y Parc].

Yn ogystal â cheisio cyflawni eu dau ddiben statudol, mae gan yr APCau ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol eu cymunedau lleol.

Os yw'n ymddangos bod gwrthdaro rhwng y dibenion hyn, bydd mwy o bwys ynghlwm wrth y diben o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal o fewn y Parc Cenedlaethol.

**Cyd-destun strategol Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol**
Yn yr hinsawdd sydd ohoni, anaml y bu cyfraniad yr APCau at flaenoriaethau polisi cenedlaethol strategol allweddol yn fwy; o ran adfer natur ac atal colli bioamrywiaeth; lliniaru newid hinsawdd; datgarboneiddio; yr adferiad gwyrdd; a thwristiaeth gynaliadwy, ymhlith eraill.

**Dulliau o weithio**
Mae'n ofynnol i bob Awdurdod baratoi Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn pennu polisïau ar gyfer rheoli'r Parc ac ar gyfer trefnu a darparu gwasanaethau gan yr APC i gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'n cynnwys polisïau ar gyfer rheoli'r tir yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n gosod y sail ar gyfer cydweithio, nid yn unig gyda sefydliadau cadwraeth statudol a gwirfoddol, ond hefyd â thirfeddianwyr cyhoeddus a phreifat eraill. Mae ymgynghori wrth baratoi'r Cynllun yn caniatáu i bobl gyfrannu at gyflawni polisïau ymarferol ac mae'n hanfodol ar gyfer cydweithredu cydymdeimladol â phreswylwyr a buddiannau eraill yn y Parc.

Bydd yr APC yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned wrth baratoi Cynlluniau Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, a bydd yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad y Cynllun Datblygu Lleol. Yr APCau hefyd yw'r awdurdod cynllunio ar gyfer eu hardal ac maent yn gyfrifol am lunio cynlluniau datblygu ac am reoli datblygu.

APCBB yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rhaid i'r Awdurdod gydbwyso gofynion cynnal economi ffyniannus a chymunedau bywiog ag anghenion y dirwedd ysblennydd hon. Mae **Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn darparu sail ar gyfer cyflawni dibenion statudol yr Awdurdod yn ogystal â hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd ei gymunedau.

**Beth yw eu Strwythur a'u Haelodaeth?**
O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 mae'r tri APC Cymreig yn Awdurdodau Lleol â diben arbennig. Maent yn gyrff corfforaethol sydd â phwerau gweithredol. Mae dibenion y Parciau yr un fath yng Nghymru a Lloegr ond mae aelodaeth yr APCau ym mhob gwlad yn wahanol.

Yng Nghymru, caiff dwy ran o dair o'r seddi eu llenwi gan gynghorwyr Awdurdodau Lleol cyfansoddol i adlewyrchu buddiannau lleol ac un rhan o dair drwy benodiadau a wneir gan Weinidogion Cymru i gynrychioli'r budd cenedlaethol. Wrth benodi aelodau i eistedd ar APCau, anogir Awdurdodau Lleol i ddefnyddio cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffin y Parc. Mae gan bob Aelod statws cyfartal ni waeth pwy sy'n eu penodi i'r Awdurdod.

**Ble mae Awdurdodau y Parciau Cenedlaethol yn cael eu harian?**
Mae Gweinidogion Cymru yn darparu'r rhan fwyafrif o'u cyllid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar ffurf Grant y Parc Cenedlaethol. Daw dwy ran o dair o'r Grant o Weinidogion Cymru yn uniongyrchol, gyda'r traean sy'n weddill yn cael ei godi gan yr APCau o'u Hawdurdodau Lleol cyfansoddol. Mae grant ychwanegol ar gael gan Weinidogion Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf penodol. Mae gan APCau incwm hefyd o weithgareddau masnachu, ffioedd parcio ceir a ffioedd ceisiadau cynllunio. Yn ogystal, mae'r APCau yn denu incwm grant sylweddol o ffynonellau ariannu allanol eraill.

**Atodiad C**

## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth yn Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys y Cynghorydd Gareth Ratcliffe, Cadeirydd APC Bannau Brycheiniog; Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru; ac Aelod Annibynnol.

Yn amodol ar nifer y ceisiadau a dderbynnir, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa hon, efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob un o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn 27 Chwefror 2026 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliadau, y'u cynhelir ar 9 a 10 Mawrth 2026. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn teimlo eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, yna byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Byddwch yn derbyn e-bost gan y system benodi 'Cais' i roi gwybod i chi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb ym mhencadlys APCBB yn Aberhonddu. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (YDBWYCNHMG), a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall YDBWYCNHMG ddewis i gyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd yn gwneud hynny, bydd yn cwrdd â phob ymgeisydd ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei chynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am gynnydd.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr yn eich penodi fel aelod o APC Bannau Brycheiniog, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os byddwch yn aflwyddiannus yn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swyddi a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn rhoi manylion pwy y gallwch gysylltu â nhw i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch.

**Ymholiadau**
Os oes gennych ymholiadau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

**Os nad ydych yn hollol fodlon**
Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu pob cais cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd â chwrteisi. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Atodiad D**

**<u>Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001</u>**

**1. Anhunanoldeb**
Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

**2. Gonestrwydd**
Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**3. Uniondeb a Gwedduster**
Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.

**4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**
Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

**5. Stiwardiaeth**
Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.

**6. Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**
Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

**7. Cydraddoldeb a Pharch**
Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

**8. Bod yn Agored**
Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

**9. Atebolrwydd**
Mae'r aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

**10. Rhoi Arweiniad**
Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddwch ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a chyflogeion eraill yr awdurdod.

**Atodiad E**

**Canllaw Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg**

**Deall:**
0 = Dim sgiliau
1 = Gall ddeall darnau o sgwrs sylfaenol
2 = Gall ddeall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd
3 = Gall ddeall sgyrsiau gwaith arferol
4 = Gall ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau gwaith
5 = Dealltwriaeth lawn o sgyrsiau ymhob sefyllfa waith

**Darllen**:
0 = Dim sgiliau
1 = Gall ddarllen rhai geiriau ymadroddion sylfaenol
2 = Gall ddarllen deunydd syml ar bynciau pob dydd
3 = Gall ddarllen peth deunydd arferol mewn sefyllfa waith gyda chymorth e.e. geiriadur
4 = Gall ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd mwyaf mewn sefyllfa waith
5 = Gall ddeall pob deunydd mewn sefyllfa waith yn llawn

**Siarad:**
0 = Dim sgiliau
1 = Yn gallu cynnal sgyrsiau sylfaenol yn Gymraeg
2 = Gall gynnal sgwrs syml mewn sefyllfa waith
3 = Gall gynnal sgwrs mewn rhai sefyllfaoedd gwaith
4 = Gall sgwrsio yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gwaith
5 = Rhugl

**Ysgrifennu:**
0 = Dim sgiliau
1 = Gall ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau bob dydd
2 = Gall ysgrifennu gohebiaeth syml sy’n gysylltiedig â gwaith
3 = Gall baratoi deunydd arferol sy’n gysylltiedig â gwaith gyda chymorth gwirio
4 = Gall baratoi’r rhan fwyaf o waith ysgrifenedig yn y Gymraeg
5 = Gall baratoi deunydd ysgrifenedig ar gyfer pob sefyllfa waith